

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 13eg Mawrth, 2017, yn Ffestri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys H. Evans (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Carys E. Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cyngorwyr S.R. Jones, Llinos Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts, Harry Richards, Glenys Williams

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Michael Strain, Gillian Walker

96. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

97. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen.

98. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg CHWEFROR, 2017**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Chwefror, 2017.

MATERION YN CODI

a) Eitem 89 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (ch) Adolygiad Etholiadol

Yn dilyn adroddiad y Cadeirydd i'r cyfarfod olaf ynglyn ag adolygiad etholiadol, ystyriwyd yr effaith fyddai'n ei gael ar y Gymuned.

Penderfynwyd anfon y sylwadau isod ymlaen i'r Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd:

Datgan pryder ynglyn a faint o etholwyr (1244) fydd cynrychiolydd cefn gwlad yn gorfod gweithredu drostynt – hyn yn bosibl mewn tref efallai ond nid yng nghefn gwlad.

Os gweithredir yn unol a'r adolygiad bydd cefn gwlad yn dioddef yn enbyd a bydd llais yr etholwyr yn cael ei golli.

Y pwysigrwydd o gael aelod o fewn cyrraedd rhesymol i'r etholwyr gael mynd ato/ati i drafod materion.

b) Eitem 89 Cadarnhau Cofnodion – cymal (dd) Cwrs

- 1) **Cyflwynwyd** adroddiad i'r Cadeirydd, Y Cynghorwyr Glyn Roberts a Glenys Williams adolygu swydd ddisgrifiad y Clarc – copi'n amgaaedig. "B"

Penderfynwyd mabwysiadu'r ddogfen.

- 2) **Penderfynwyd** gohirio trafodaeth ynglyn a sefydlu gwefan i'r Cyngor gan fod y Cynghorydd Michael Strain yn absennol o'r cyfarfod.
- 3) **Penderfynwyd** mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog/Ariannol a'r Tabl Risg Asesiad fel ac y maent.

c) Eitem 93 – Awdurdod i Dalu

Penderfynwyd awdurdodi talu Swyddfa Archwilio Cymru y swm o £486.65, ond fod Y Cynghorwyr S.R. Jones a Harry Richards i'w godi yng nghyfarfod o Un Llais Cymru yr wythnos ddilynol gan fynegi siom y Cyngor i'r anfoneb dderbyniwyd.

99. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd cais C16/0867/32/LL – adeiladu uned masnachol ar gyfer busnes arlwyo gyda fflat uwchben, gwaith allanol cysylltiedig a thorri coed – Congl Meinciau, Botwnnog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

100. MATERION FFYRDD

Penderfynwyd anfon y mater a ganlyn ymlaen i'r Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:

Twll edrych ger Tanyffordd, Penygroeslon, yn dal angen sylw.

101. MATERION IECHYD

- a) Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.
- b) Derbyniwyd ymateb o Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i sylwadau anfonwyd atynt – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd anfon copi o'r llythyr i Dr. O.G. Morris, Meddygfa Rhydbach.

102. BARBIO TIROEDD Y CYNGOR

Agorwyd dau dendr ar gyfer gwaith barbio tiroedd y Cyngor a **phenderfynwyd**

derbyn yr isaf o eiddo J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy, fel a ganlyn:

1. Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) ; y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2017, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £510 + TAW.**
2. Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2017); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2017, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £900 + TAW.**
3. Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£15.00 yr awr + TAW.**

103. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau isod:

Llanw Llyn – hysbyseb	£ 9.00
Hurio ystafelloedd cyfarfod:	
Canolfan Bryncroes x 3 gwaith	£ 30.00
Festri Capel Rhydbach x 3 gwaith	£ 30.00
Neuadd Goffa Sarn x 3 gwaith	£ 30.00
Festri Capel Hebron, Llangwnnadl x 2 waith	£ 20.00
HMRC	£ 93.20
Y Clarc	£372.55

104. **UN LLAIS CYMRU – PWYLLGOR ARDAL ARFON/DWYFOR**

Penderfynwyd awdurdodi'r Cynghorwyr S.R. Jones a Harry Richards i fynychu cyfarfod o Un Llais Cymru, Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor, yng Nghanolfan Plas Heli, Stad Ddiwyddiannol Glandon, Pwllheli, ar 22ain Mawrth, 2017. Hefyd fod mynychu'r cyfarfod i'w gydnabod yn ddyletswydd cydnabyddiedig.